

Lle Ffyniannus

Cymuned arloesol, cynhyrchiol a charbon isel sy'n cydnabod cyfyngiadau yr amgylchedd byd eang ac felly'n defnyddio adnoddau yn effeithiol a chymesur (yn cynnwys gweithredu ar newid hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth sgilgar ac wedi'u haddysgu'n dda mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth a chyfleoedd cyflogaeth, yn caniatáu pobol i gymryd mantais o'r cyfoeth a gynhyrchir trwy sicrhau gwaith gweddus.

Sefyllfa a gweithredoedd cyfredol

Tra bod Llanelli wedi gweld newid arwyddocaol yn ei heconomi lleol dros y 30 mlynedd diwethaf mae'n anghyffredin yng Nghymru ei bod wedi cadw canran uchel o'i chyflogaeth yn y sector cynhyrchu. Mae'r ardal Wledig yn cynnwys rhai cyflogwyr arwyddocaol iawn wedi'u lleoli yng nghanol y cymunedau lleol ac sy'n cynnig cyfleoedd gwaith lleol. Mae yna dir hefyd wedi'i glustnodi ar gyfer datblygiad cyflogaeth pellach mewn rhai rhannau o'r ardal wledig. Mae pocedi o ddiweithdra ac anactifedd economaidd yn parhau'n bryder, fel y cynnydd gan rai pobol ifanc mewn addysg yn yr ysgolion uwchradd, Mae'r rhaglen Cymunedau'n Gyntaf yn gweithio'n llwyddiannus mewn rhai ardaloedd yn cynnig cefnogaeth cyflogaeth ac addysg. Mae'r Cyngor Sir, Hyfforddiant LRC a Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda chwmnïau lleol i helpu i gefnogi ei datblygiad mewn recriwtio yn y dyfodol. Mae adborth oddi wrth gyflogwyr yn nodi rhai diffygion sgiliau sy'n gysylltiedig â diffyg/cost cymwysterau swyddi penodol a pheth potsian o lafur sgiliau rhwng cwmnïau yn y sector cynhyrchu. Mae arallgyfeirio pellach yn yr economi, cyflogaeth wedi'i dargedu ac ymdrechion hyfforddiant a gwell cyswllt rhwng ysgolion. Coleg Sir Gar a chyflogwyr lleol yn weithredoedd allweddol er mwyn sicrhau cynaliadwyedd yn y dyfodol.

Ymyriad arfaethedig

Gwaith Llanelli- Mae rôl asiantaethau cyflogaeth mewn darparu llwybrau ar gyfer cyflogaeth wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf mewn ystod o ddiwydiannau. Mae ychydig, serch hynny, yn gweithredu gydag amcanion cymdeithasol, yn targedu pobol lleol a chefnogi eu datblygiad sgiliau parhaus. Byddai Gwaith Llanelli yn asiantaeth recriwtio a hyfforddiant cymdeithasol dielw yn gweithio gyda neu'n dod yn rhan o Hyfforddiant LRC. Byddai'r asiantaeth yn sefydlu perthynas agos gyda Chanolfan Gwaith a Chymunedau'n Gyntaf a pherthynas weithredol gyda chyflogwyr allweddol. Prif amcanion yr asiantaeth fyddai cefnogi cynnydd i fyny ar hyd ysgol sgiliau er mwyn cael mynediad i well cyflogau ac amodau, a chysylltu pobol leol â swyddi lleol. Yn ychwanegol at hyn, byddai Gwaith Llanelli yn cymryd rôl fwy rhagweithiol wedi'i ganolbwyntio'n lleol wrth drefnu perthynas rhwng Ysgolion uwchradd/coleg/BID/a chyflogwyr mawr yn cynnwys gweithdai, cyflwyniadau a hyrwyddo entrepreneuriaeth.

Pwrcasu cymunedol- Darparu dull i fusnesau a chymunedau i gydweithio i sicrhau bargeinion gwell mewn cyflenwad ynni, band llydan a rheolaeth gwastraff.

Partneriaid – Byddai Hyfforddiant LRC yn bartner allweddol ac o bosib yn ggyfrifol am gynnal, Cymunedau'n Gyntaf – cleientiaid clybiau swyddi, Canolfan Gwaith, Ysgolion uwchradd, Un Sir Gar (Yr Hwb) a Choleg Sir Gar.

Mesuriadau –Lleihad mewn diwethdra uwch na'r cyfartaledd a dim cyfraddau cymwysterau Llwynhendy, Felinfoel a Dafen.

Blaenoriaethau Lleol – Gestamp a Calsonic, Owens Logistics a Gwesty Parc y Strade.